



**Academi Genedlaethol ar gyfer  
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru  
National Academy for  
Educational Leadership Wales**

**Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod y Bwrdd 14 Mai 2020 drwy Zoom**

Yn bresennol:

Sue Davies (SD) (Cadeirydd)  
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)  
Kirsty Payne (KP)  
Claire Williams (CW) (gadawodd CW y cyfarfod am  
11:45)  
Mike James (MJ)  
Martin Price (MP)  
Davina Payne (DP)  
Rosemary Jones OBE (RJ) (gadawodd RJ y cyfarfod am  
12:35)  
Paul Marshall (PM)  
Olivia Stemmer (OS) (Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau:

John Graystone (JG)

*1. Croeso, cadarnhad o'r cofnodion a'r camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf*

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan SD. Rhannodd SD ddymuniadau da i'r Bwrdd a'r staff gan Huw Foster Evans. Hefyd, croesawyd TE i'w chyfarfod cyntaf fel Prif Weithredwr. Lansiwyd yr Academi Arweinyddiaeth ddwy flynedd yn ôl i'r mis hwn, ac mae wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflawni ei chylch gwaith hyd yn hyn. Bu'n rhaid gohirio cynlluniau oherwydd COVID-19, ond mae'n bwysig cadw presenoldeb yn y sector. Mae SD yn hyderus y bydd TE yn gofalu am hyn. Mynegodd SD ei diolch i'r cymdeithion am fynd ati i lenwi'r bwch sydd wedi'i adael tra bod Cyfarwyddwr Cynorthwyol newydd yn cael ei recriwtio.

Ni chofnodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir ond nodwyd y newidiadau canlynol:

- **Roedd CW eisiau newid ei sylw yn y 7<sup>fed</sup> pwynt bwled yn Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i ddweud bod ganddi fwy o wybodaeth am yr Academi Arweinyddiaeth oherwydd ei bod yn aelod o'r Bwrdd**
- **Roedd DP eisiau newid yr 8<sup>fed</sup> pwynt bwled yn Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i ddweud 'Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol'**

Siaradodd SD am y log camau gweithredu:

- Cam gweithredu 83 – Bu SD yn cyfarfod â Llywodraeth Cymru ynglŷn â newid aelodau'r bwrdd, ac mae wedi cyflwyno adroddiad ar y bwrdd i'r Gweinidog. Mae cyfnod gwasanaeth holl aelodau'r bwrdd yn dod i ben ar 30 Ebrill 2021. Roedd hyn oherwydd y cyfnod ariannu cychwynnol o dair blynedd. Mae angen dull graddol o newid aelodau'r bwrdd. **Bydd holl aelodau'r bwrdd yn hysbysu SD a fyddai diddordeb ganddynt mewn gwasanaethu am dymor ychwanegol neu a ydynt am roi'r gorau iddi ar 30 Ebrill 2021.**
- Cam gweithredu 84 – Adolygir y cylch gorchwyl yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Roedd yr archwiliad mewnol diweddar wedi argymhell bod angen cynnwys egwyddorion Nolan ar unwaith. **Cytunwyd y dylid ychwanegu egwyddorion Nolan at y cylch gorchwyl ar unwaith**
- Cam gweithredu 105 – Awgrymodd SD y dylid gohirio'r cam hwn nes bod modd cyfarfod wyneb yn wyneb. **Nodi bod y cam gweithredu hwn wedi'i ohirio**
- Cam gweithredu 113 – Mae sgwrs wedi'i chynnal. **Nodi bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau**
- Cam gweithredu 115 – Gohiriwyd y cam gweithredu gan nad yw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn gallu cynnal y 'gweithdy risg' arfaethedig nes bod yr aelodau'n gallu cyfarfod wyneb yn wyneb. **Nodi bod y cam gweithredu hwn wedi'i ohirio**
- Cam gweithredu 125 – Mae strategaeth gyfathrebu wedi'i chreu ac mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi cyfarfod. Trafodir hyn fel eitem ar yr agenda yn nes ymlaen. **Nodi bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.** Bydd y strategaeth yn cael ei hailystyried ar ôl penodi rheolwr cyfathrebu
- Cam gweithredu 131 – Mae KP wedi cysylltu â'r archwiliwr mewnol i wneud y newid. **Nodi bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.**
- Cam Gweithredu 133 – Daeth rôl estynedig SD i ben ar 1 Ebrill a hysbyswyd Llywodraeth Cymru. **Nodi bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.**
- Cam gweithredu 134 - Nid yw'r cam gweithredu hwn yn briodol yn ystod y pandemig COVID-19. Byddwn yn ailystyried y mater hwn yn y dyfodol. **Nodi bod y cam gweithredu hwn wedi'i ohirio**
- Cam gweithredu 12 - Gofynnodd TE am eglurhad. Eglurodd DP fod y Bwrdd yn cytuno y byddai'n fanteisiol cael astudiaethau achos i'w defnyddio yn ystod cyfarfod cynnar pan fydd angen. Gofynnodd TE am symud yr eitem hon o'r log gweithredu i'r strategaeth gyfathrebu, a chytunodd pawb i hynny. **Nodi bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau**

## 2. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd PM yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 20 Ebrill 2020. Roedd y cyfarfod wedi canolbwyntio ar dri maes allweddol – archwiliad allanol, archwiliad mewnol ac adolygu'r gofrestr risgiau.

Eglurodd PM y cafwyd trafodaeth fanwl am bob risg a sut yr effeithiwyd arnynt gan COVID-19. Roedd yr ymatebion i'r risgiau wedi'u llywio i raddau helaeth gan y sefyllfa bresennol o ran materion anhysbys a newidiadau gan Lywodraeth Cymru.

Trafododd y Bwrdd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi derbyn cynllun archwilio gan Archwilio Cymru yn ymwneud ag archwiliad allanol o'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. Mae'r pwyllgor yn argymhell y dylai'r bwrdd gymeradwyo'r cynllun. **Cymeradwyodd y bwrdd y cynllun archwilio allanol.**
- Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr adroddiad gan archwiliad mewnol Rheoliadau Strategol a Llywodraethu Corfforaethol. Roedd yr archwiliad wedi darparu sicrwydd rhesymol ac roedd yr archwilwyr yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol. Mae nifer o argymhellion wedi'u gwneud a bydd y broses o'u gweithredu yn cael ei hadolygu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.
- Adolygwyd y gofrestr risgiau yn fanwl iawn oherwydd COVID-19. Ychwanegwyd risg newydd yn ymwneud â'r cynllun corfforaethol.
- Aeth y pwyllgor ati i drafod sut i greu cynllun ymadael yn dilyn COVID-19. Awgrymodd MJ y dylai'r rheolwyr gyflwyno cynllun bras yng nghyfarfod nesaf y bwrdd. Ychwanegodd MJ y gallai fod angen cynllunio ar gyfer senarios lluosog oherwydd y lefel bresennol o ansicrwydd.
- Cyflwynodd SD gwestiwn gan John Graystone yn gofyn a ddylid gwneud cyfeiriad pellach at COVID-19 yn y gofrestr risgiau ac a ddylid ychwanegu 'risg COVID-19' benodol. Cadarnhaodd PM fod y mater hwn wedi'i drafod yn fanwl yn ystod y cyfarfod a bod y pwyllgor o'r farn mai effaith Covid-19 ar y risgiau strategol presennol sy'n bwysig, yn hytrach na bod Covid-19 yn risg benodol ynddo'i hun.
- Trafododd y Bwrdd y ffaith fod yr Academi Arweinyddiaeth wedi'i chynnwys yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru i ailagor ysgolion ar gyfer addysg. Mae'r Academi Arweinyddiaeth yn un o bartneriaid 'Parhad Dysgu', ac mae staff a chymdeithion yr Academi yn rhan o'r grwpiau darparu y cyfeirir atynt yn y ddogfen. Mae CW yn teimlo ei bod yn hanfodol bod yr Academi Arweinyddiaeth yn rhan o'r gwaith cynllunio 'dychwelyd i'r ysgol' er mwyn cefnogi arweinwyr drwy'r broses. Roedd RJ yn cytuno â CW, gan nodi bod hwn yn gyfle i'r Academi Arweinyddiaeth fod yn fwy amlwg yn y sector. Mae TE wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am gynnwys yr Academi Arweinyddiaeth yn y gwaith cynllunio, ond ychwanegodd ei bod yn bwysig ystyried gallu staff a chymdeithion yr Academi Arweinyddiaeth.

Diolchodd SD i CW ac RJ am rannu eu profiad helaeth ar yr adeg hon. Mae'n bwysig derbyn y nodweddion cadarnhaol a dilyn arweiniad y Gweinidog ar hyn o bryd. Cadarnhaodd CW fod y proffesiwn yn teimlo bod y Gweinidog yn ei gefnogi.

Hefyd, diolchodd SD i Chris Lewis, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Polisi, Ymchwil a Chynllunio Strategol y Gweithlu ac i'r Cymdeithion am helpu i gyflawni dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol tra bod aelod newydd o staff yn cael ei recriwtio.

### 3. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol

Derbyniwyd ymddiheuriad gan John Graystone ar gyfer y cyfarfod hwn, felly cyflwynodd MP yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol ar 6 Mai 2020. Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Adolygwyd adroddiad y gyllideb ar gyfer Ch4 yn 2019/20 ac nid oedd unrhyw anghysonderau i'w nodi. Talwyd swm o arian o gyllideb y llynedd i Four Cymru i gynhyrchu fideo hyrwyddo, ond nid oedd modd dechrau'r gwaith oherwydd COVID 19.
- Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi'i lleihau yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru. Swm newydd y grant ar gyfer 2019/20 yw £900,000. Mae swyddogaethau blaenoriaeth strategol megis cymeradwyo ac arloesi wedi'u hatal dros dro ac mae treuliau wedi'u lleihau er mwyn gwneud arbedion. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y gyllideb ond bydd angen i'r Bwrdd ei chymeradwyo'n ffurfiol o hyd.
- Ni phenodwyd neb i'r swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol gan nad oedd nifer yr ymgeiswyr yn ddigon eang i dynnu rhestr fer. Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu eto gyda dyddiad dechrau ym mis Ionawr 2021.
- Mae'r hysbyseb ar gyfer Rheolwr Cyfathrebu yn fyw, ac mae lefel y swydd a'r cyflog yn uwch nag yn yr hysbyseb flaenorol.
- Bydd 3 secondiad yn cael eu hysbysebu ym mis Mehefin gyda dyddiad dechrau ym mis Medi.
- Adolygwyd y polisi gweithgareddau gwleidyddol ac argymhellwyd y dylid ei gymeradwyo. Mae'r pwyllgor wedi gofyn am rywfaint o eglurder ynglŷn â phwy y mae'r polisi'n berthnasol iddynt.

Cytunodd y Bwrdd ar y pwyntiau canlynol:

- **Mae cam gweithredu 42 wedi'i gwblhau**
- **Newid MJ i MP yn y cofnodion**
- **Cymeradwywyd y gyllideb ddiwygiedig yn ffurfiol gan y Bwrdd**

### 4. Adroddiad y Prif Weithredwr

Diolchwyd i TE gan SD am y llythyr a anfonodd at y Bwrdd, a llongyfarchodd KP ar ei phriodas. Ategodd TE ei diolch i'r Bwrdd a'r staff am eu cefnogaeth barhaus. Eglurodd TE y bydd adroddiadau'r Prif Weithredwr yn y dyfodol yn cyd-fynd yn agosach â'r cynllun corfforaethol yn unol ag argymhellion yr archwiliad mewnol diweddaraf.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- O ganlyniad i COVID-19, ni all Llywodraeth Cymru gwblhau'r gwerthusiad annibynnol o'r Academi Arweinyddiaeth ym mis Medi yn ôl y bwriad, ac nid yw'n gallu darparu llythyr cylch gwaith newydd. Y bwriad yw cynnal y camau gweithredu hyn yn gynnar yn 2021 bellach.

- Mae Chris Lewis yn cynnal adolygiad mewnol o waith yr Academi Arweinyddiaeth hyd yn hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg yn gwneud gwaith annibynnol yn ymwneud ag arweinyddiaeth systemau, ac mae wedi cyfweld â sawl Cydymaith. Bydd y ddau ddarn o waith yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ailysgrifennu'r cynllun corfforaethol a fydd yn cynnwys cynllun tair blynedd lefel uchel a chynllun strategol blynyddol. Bydd y cynlluniau gweithredol sy'n cael eu llunio gan y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn dod o dan hyn.
- Mae pob aelod staff yn gweithio gartref ar hyn o bryd. Mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cynhelir pob cyfarfod ar-lein erbyn hyn, a bu'r trefniant yn effeithiol iawn hyd yn hyn.
- Mae'r Academi Arweinyddiaeth yn cyfrannu at Barhad Dysgu sydd wedi gwella amlygrwydd yn y sector.
- Mae TE a Chris Lewis yn cynnal cyfarfodydd strategaeth rheolaidd, ac maent yn edrych ar y weledigaeth a'r gwerthoedd i weld a ydynt yn addas i'r diben ac yn ychwanegu gwerth. Gofynnodd MJ a fyddai angen gofyn am ganiatâd Llywodraeth Cymru cyn newid y weledigaeth a'r gwerthoedd.
- Mae strategaeth llesiant Cymru gyfan wrthi'n cael ei llunio. Anfonir arolwg at bob arweinydd ysgol yng Nghymru er mwyn llywio'r strategaeth. Mae'r arolwg wedi'i dreialu yn Sir Gaerfyrddin ac mae ansawdd y data yn rhagorol.
- Mae bwletin wythnosol yn cael ei lunio i hysbysu rhanddeiliaid mewnol am ddiweddariadau.
- Mae cyllid arloesi wedi'i atal ar gyfer Ch1 a 2 ond mae gwaith arloesi'n parhau i gael ei annog drwy ddulliau eraill. Ariannwyd 4 prosiect ym mis Mawrth cyn i'r gyllideb gael ei lleihau.
- Mae Cymdeithion wedi bod yn arwain ar ffrydiau gwaith er mwyn cynorthwyo TE tra bod y broses o recriwtio Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn mynd rhagddi.
- Mae cyfarfodydd COPA wedi'u disodli gan gyfarfodydd CYD ar-lein er mwyn dod â'r tair carfan o gymdeithion ynghyd.
- Mae'r archwiliad o'r ddarpariaeth arweinyddiaeth yn y sector arbennig wedi'i atal dros dro.
- Mae canllawiau Arwain Dysgu Proffesiynol wedi'u hatal dros dro hefyd gan nad yw OB3 yn gallu parhau i gasglu tystiolaeth tra bod yr ysgolion ar gau.
- Bu'n rhaid atal EIE! hefyd gan nad yw ysgolion yn gallu parhau â'u prosiectau yn ystod y cyfnod heriol presennol.
- Mae Alma Harris yn ymgymryd â phrosiect ymchwil ar gyfer yr Academi Arweinyddiaeth yn ymwneud ag arweinyddiaeth systemau, a gofynnwyd i Christine Ford gwblhau prosiect ymchwil yn ymwneud ag arweinyddiaeth ganol.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- **Bydd TE yn cadarnhau a fydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu'r weledigaeth a'r gwerthoedd newydd ar ôl iddynt gael eu cytuno**

Diolchodd SD i TE am ei hadroddiad ac am roi lle blaenllaw i lesiant y staff a'r cymdeithion.

## 5. Diweddariad ar COVID-19

Rhannodd TE y strategaeth llesiant gan Ian Gerrard (Cydymaith Carfan 2). Eglurodd TE fod trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â'r diffiniad o lesiant gan ei bod yn bosibl bod y diffiniad yn wahanol i bawb. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n nodi ymarfer, yn datblygu ymarfer a rhannu ymarfer.

Gofynnodd MJ a ddylid ychwanegu'r strategaeth llesiant at agenda un o'r is-bwyllgorau er mwyn sicrhau adroddiadau rheolaidd. Nododd RJ mai llesiant yw gweithgaredd craidd yr Academi Arweinyddiaeth erbyn hyn. Mae SD yn teimlo bod y mater hwn yn fwy addas i'r prif fwrdd nag un o'r pwyllgorau gan ei fod yn berthnasol i bawb. Awgrymodd SD y dylai fod yn eitem sefydlog ar agenda'r prif fwrdd.

**Cytunodd y bwrdd i ychwanegu'r strategaeth llesiant fel eitem sefydlog ar holl agendâu'r bwrdd yn y dyfodol.**

Gofynnodd DP pryd y bydd yn debygol y bydd dysgwyr mewn ysgolion yn gallu dychwelyd i fywyd ysgol arferol. Mae RJ yn credu y bydd yna system hybrid o ddysgu o bell a mynychu'r ysgol nes bod yr agwedd iechyd wedi'i datrys. Mae Prifysgol Dwyrain Llundain yn lansio dull cyflwyno deul yn yr hydref er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gallu bod ar y campws os oes modd, neu fanteisio ar ddarpariaeth dysgu o gartref os nad oes modd mynychu campws. Nid yw TE yn credu y bydd lefelau presenoldeb yn uchel hyd yn oed os yw ysgolion yn ailagor yn y dyfodol agos. Bydd bwlch enfawr yn y profiadau y mae plant wedi'u cael yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Mae materion yn codi yn ymwneud ag anfanteision cymdeithasol a thechnolegol. Mae MJ yn credu bod materion economaidd yn sbarduno ailagor ysgolion yn Lloegr.

Cyflwynodd TE ddiweddariad ar COVID-19 i'r Bwrdd (trafodwyd llawer o'r materion perthnasol eisoes yn ystod y cyfarfod).

Bwriedir cynnal cyfres o weminarau dysgu proffesiynol yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf. Mae'r gweminarau ar gael i gymdeithion yn unig ar hyn o bryd, ond mae'n bosibl y bydd modd eu cyflwyno'n ehangach os ydynt yn llwyddiannus. Mae un o'r siaradwyr wedi gofyn am beidio â ffrydio'r sesiwn yn fyw, ond bydd y sesiynau eraill yn cael eu recordio.

Llongyfarchodd SD staff yr Academi Arweinyddiaeth ar sicrhau ardystiad Cyber Essentials Plus yn ddiweddar. Mynegodd SD a TE eu diolch i KP am ei gwaith.

## 6. Diweddariad y Grŵp Gorffen a Gorchwyl Cyfathrebu

Cyflwynodd TE ganlyniadau cyfarfod y grŵp gorchwyl a gorffen:

- Mae'r Academi Arweinyddiaeth yn paratoi i gynnal cyfweiliadau digidol ar gyfer y swydd Rheolwr Cyfathrebu ac mae wedi derbyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar gynnal cyfweiliadau digidol. Hefyd, mae MP wedi ysgrifennu blog am gyfweiliadau digidol a fydd yn ymddangos ar wefan yr Academi Arweinyddiaeth.

- Adolygodd y grŵp y strategaeth gyfathrebu ddrafft a ysgrifennwyd y llynedd. Mae MJ yn awyddus i grynhoi pwyntiau allweddol y strategaeth mewn un dudalen A4. Bydd yn anodd rhoi popeth yn y strategaeth ar waith nes penodi aelod o staff.
- Mae Richard Monteiro wedi llunio strategaeth gyfathrebu yn ystod COVID-19 a bydd KP yn ei rhannu gyda'r bwrdd.
- Mae Richard Monteiro yn llunio tîm o gymdeithion i roi'r strategaeth gyfathrebu ar waith.
- Diolchodd DP i TE a KP am wrando ar ei barn am y swydd gyfathrebu ac am gynyddu'r cyflog a'r cyfrifoldebau.
- Mae John Graystone yn awyddus i gynnal sesiwn yn adeilad y Senedd i hyrwyddo'r Academi Arweinyddiaeth. Mae'n debygol y bydd Gweinidog Addysg newydd ym mis Mai, a byddai'n berthnasol codi ymwybyddiaeth ymysg Gweinidogion eraill. **Cytunodd y bwrdd fod hwn yn syniad da ac y bydd yn trafod y mater yn fanylach pan fydd amgylchiadau'n golygu bod modd ailddechrau digwyddiadau wyneb yn wyneb**
- Mae MP yn meddwl y gallai fod yn syniad da cynnal sesiynau un i un gydag ysgrifenyddion addysg y gwrthbleidiau. Mae TE yn credu y gallai'r broses o lansio'r strategaeth llesiant fod yn amser da i ymgysylltu â Gweinidogion eraill. **TE i ystyried ymgysylltu â Gweinidogion.**
- Mae DP o'r farn y gallai hyn fod yn amser da i rannu gwaith yr Academi a chymryd rhan mewn cyfleoedd allanol yn y cyfryngau. Mae PM yn cytuno ac yn credu y dylai'r Academi Arweinyddiaeth fod yn ymgysylltu â'r cyfryngau i gymryd rhan yn y trafodaethau ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol. Gofynnodd SD a allai DP rannu ei chysylltiadau yn y cyfryngau er mwyn helpu'r Academi Arweinyddiaeth i ymgysylltu. Awgrymodd SD y dylid rhannu bwletin allanol gyda Gweinidogion a Llysgenhadon.

#### 7. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau ar gyfer yr agenda a chau'r cyfarfod

Diolchodd SD i bawb am eu presenoldeb a'u hamynedd gyda'r amgylchedd cyfarfod ar-lein. Mynegodd SD y pwysigrwydd o nodi agweddau cadarnhaol sefyllfa COVID 19 a pheidio â chanolbwyntio ar y bygythiadau.

Atgoffodd SD y grŵp i ymateb i'r arolwg Doodle yn ymwneud â dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

Caeodd SD y cyfarfod am 12:55

#### Log Camau Gweithredu

Rhif		Perchennog	Terfyn amser	Statws
12	AGAA i ystyried datblygu hanesion achos	HFE	Medi 2019	Cwblhawyd
83	Gwirio'r broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer aelodau bwrdd yn y dyfodol	SD	Medi 2019	Yn parhau

84	Adolygiad blynyddol o'r cylch gorchwyl	SD	Gorffennaf 2020	
105	Tegwen Ellis i fynychu cyfarfod y bwrdd yn y dyfodol i gyflwyno ei gwaith Doethuriaeth hyd yn hyn	KP	Medi 2020	Gohiriwyd
106	Holl agendâu a'r holl gofnodion yn y dyfodol i fod yn ddwyieithog	KP	Ionawr 2020	Cwblhawyd
107	Cyhoeddi cofnodion y bwrdd ar wefan yr Academi Arweinyddiaeth	KP	Ionawr 2020	Cwblhawyd
111	Edrych ar rwydweithiau i ganfod cysylltiadau posibl yn Lloegr	Pawb	Ionawr 2020	Cwblhawyd
113	Penaethiaid y ddau is-bwyllgor i gyfarfod a thrafod strategaeth cynllunio ar gyfer olyniaeth	JG a PM	Ionawr 2020	Cwblhawyd
115	Creu ail gofrestr risgiau ar gyfer risgiau gweithredol	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Ionawr 2020	Gohiriwyd
125	Creu strategaeth gyfathrebu ar ôl penodi swyddog cyfathrebu	Pawb	Medi 2020	Cwblhawyd
131	Symud yr archwiliad marchnata i Chwarter 1 2021/22.	KP	Ebrill 2020	Cwblhawyd
133	Hysbysu Llywodraeth Cymru pan fydd rôl estynedig SD fel cadeirydd yn dod i ben	SD	Mai 2020	Cwblhawyd
134	Cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru i fynychu'r cyfarfod nesaf i drafod y cwricwlwm newydd. Os na all cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fod yn bresennol, gofyn i CW arwain	TW/CW	Medi 2020	Gohiriwyd
135	Hysbysu'r Cadeirydd am geisiadau i barhau/ymddiswyddo fel aelod o'r bwrdd ar ôl Ebrill 2021	Pawb	Gorffennaf 2020	Cwblhawyd
136	Ychwanegu Egwyddorion Nolan at y Cylch Gorchwyl	KP	Gorffennaf 2020	Cwblhawyd
137	Diwygio'r cofnodion blaenorol a'r log camau gweithredu fel yr amlinellir	KP	Mai 2020	Cwblhawyd
138	Diwygio cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel yr amlinellir	KP	Mai 2020	Cwblhawyd
139	Diwygio cofnodion y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol fel yr	KP	Mai 2020	Cwblhawyd



	amlinellir			
140	Cadarnhau a fydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar y Weledigaeth a'r Gwerthoedd diwygiedig	TE	Medi	
141	Ychwanegu'r strategaeth llesiant fel eitem sefydlog ar yr agenda	KP	Gorffennaf 2020	Cwblhawyd
142	Rhannu strategaeth gyfathrebu COVID-19 gyda'r Bwrdd	KP	Mai 2020	Cwblhawyd
143	Ystyried strategaeth ar gyfer ymgysylltu â Gweinidogion cyn yr etholiad	TE	Medi 2020	
144	Archwilio'r posibilrwydd o gynnal digwyddiad yn y Senedd i lansio'r strategaeth llesiant	TE/KP	Medi 2020	